


Mae gan dîm WIBSS rif newydd **02921 500 900**.



CYLCHLYTHYR WIBSS

Rhagfyr 2023

Mae gan dîm WIBSS rif newydd **02921 500900**.

Bydd y rhif presennol yn cael ei ddi-ddymu'n raddol dros y chwe misnesaf.

Yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig

Mae cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol ar yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig wedi cael ei ohirio tan fis Mawrth 2024. Fodd bynnag, trefnwyd cyfarfodydd diweddar ar gyfer 28 a 29 Medi. Mae Cylchlythyr yr Hydref yr IBI yn rhoi crynodeb o'r materion a godwyd ac a drafodwyd yn y cyfarfodydd hynny - www.infectedbloodinquiry.org.uk/news/newsletter-20 <<http://www.infectedbloodinquiry.org.uk/news/newsletter-20>>

Oriau'r Nadolig

Yn unol â blynyddoedd blaenorol, bydd WIBSS yn gweithredu busnes fel yr arfer yn ystod oriau swyddfa trwy gydol cyfnod y Nadolig, ond bydd rhai aelodau o staff yn cymryd seibiant haeddiannol. Oherwydd gwyliau banc, bydd y swyddfa ar gau ar 25 a 26 Rhagfyr, ac ar 1 Ionawr 2024. Bydd taliadau Rhagfyr yn cael eu derbyn erbyn 20 Rhagfyr fan bellaf.

Dewisiadau Cyfathrebu a Manylion Cyswllt

Os ydych chi wedi dewis derbyn negeseuon e-byst gan WIBSS, byddwch yn sylweddoli mai ein cyfeiriad e-bost safonol ydy wibss@wales.nhs.uk. Os ydych chi'n derbyn y cylchlythyr hwn neu ohebiaeth arall gan WIBSS, gan gynnwys hysbysiad talu drwy'r post, ond byddai'n well gennych chi wneud hyn yn ddigidol yn y dyfodol, cysylltwch â ni.



CYSYLLTWCH Â NI

Gallwch gysylltu â WIBSS ar **02921 500 900** neu drwy e-bostio wibss@wales.nhs.uk

Os nad ydy eich galwad yn cael ei ateb, gadewch neges gyda'ch enw a'ch rhif cyswllt, a byddwn yn eich ffonio'n ôl yn brydlon.

Ar gyfer yr adran Seicoleg a Lles, e-bostiwrch: wibss.wellbeing@wales.nhs.uk.

Cyswllt diweddar

Rydym yn cymryd eich gwybodaeth bersonol o ddifrif.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch tarddiad llythyr sydd yn gofyn am eich data personol, sy'n ymddangos fel pe bai gan WIBSS, cysylltwch â ni ar ein llinell uniongyrchol, **02921 500 900**.



Mae gan dîm WIBSS rif newydd **02921 500 900**.

Gallwch wneud unrhyw newidiadau i'ch enw, cyfeiriad neu fanylion banc trwy gwblhau Ffurflen H - WIBSS Newid Manylion. Gallwch ddod o hyd i'r ffurflen ar y dudalen gais ar ein gwefan. Gallwch gysylltu â'r tîm ar 02920 902280 hefyd i dderbyn copi caled drwy'r post.

HAWLIAU LLES

Rhoi cyngor cyfrinachol i chi a'ch teulu ynghylch Budd-daliadau, Arian, Eiriolaeth, Cymorth a mwy.

Help Ychwanegol – Gwneud cais am fudd-daliadau.

Oeddech chi'n gwybod bod £19 biliwn o fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm a thariffau cymdeithasol yn mynd heb eu hawlio bob blwyddyn?

Credyd Cynhwysol

Amcangyfrifir bod £7.5 biliwn o Gredyd Cynhwysol yn mynd heb ei hawlio gan 1.2 miliwn o aelwydydd cymwys. Dyma'r pot mwyaf o arian sydd heb ei hawlio allan o unrhyw un o'r budd-daliadau.. Nid yw llawer o deuluoedd, yn enwedig y rhai sydd mewn gwaith, yn gwneud cais oherwydd eu bod yn credu bod Credyd Cynhwysol ond yn cynnwys pobl sydd allan o waith neu sydd ar incwm isel iawn.

Tynnodd Credyd Cynhwysol sylw at y ffaith y gallai hyd at 300,000 o drethdalwyr cyfradd uwch fod yn gymwys i gael Credyd Cynhwysol. Er enghraifft, gallai aelwyd sy'n ennill uchafswm incwm gros blynyddol o ymhell dros £100,000 gyda chostau rhentu a gofal plant fod yn gymwys i gael Credyd Cynhwysol.

Cymorth â'r Dreth Gyngor

Amcangyfrifir hefyd bod £2.9 biliwn o Gymorth â'r Dreth Gyngor yn cael ei adael heb ei hawlio gan dros 2.7 miliwn o aelwydydd cymwys. Efallai na fydd llawer o aelwydydd yn hawlio Cymorth â'r Dreth Gyngor, oherwydd nad ydynt yn gwybod bod y gefnogaeth hon yn bodoli.

Mae gostyngiad pryderus hefyd yn nifer y bobl sy'n derbyn Cymorth â'r Dreth Gyngor, wrth i aelwydydd symud i dderbyn Credyd Cynhwysol, sydd yn disodli budd-daliadau etifeddiaeth. Mae'n rhaid i aelwyd ar gredyd cynhwysol sbarduno cais ar wahân am Gymorth â'r Dreth Gyngor. Yn y gorffennol, roedd hyn wedi cael ei asesu'n awtomatig, ochr yn ochr â hawliadau am Fudd-dal Tai.

Os ydych chi'n credu y gallai hyn fod yn berthnasol i chi neu rywun sy'n agos atoch – cysylltwch â'ch tîm hawliau lles penodol ar 02920 902280, er mwyn i ni allu eich cynorthwyo gyda gwiriad budd-daliadau a gyda phob cam o'r hawliad.

Mae gan dîm WIBSS rif newydd **02921 500 900**.

Tîm Seicoleg a Lles

Rydym eisiau eich atgoffa o'r gwasanaethau WIBSS sydd ar gael i chi. Mae WIBSS yn cynnig gwasanaethau asesu a thriniaeth seicolegol arbenigol, cyfrinachol, rhad ac am ddim, sy'n ymwneud â'r anawsterau emosiynol o fod wedi cael diagnosis o Hepatitis C a/neu HIV, ac o fyw gyda'r rhain..

Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i chi ac aelodau o'ch teulu.

Os hoffech gysylltu, gellir cysylltu â'r tîm ymroddedig ar 029 20196141, neu drwy e-bost: wibss.wellbeingservice@wales.nhs.uk.

Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n recriwtio cwnselydd WIBSS, ac yn gobeithio llenwi'r rôl hon yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd cyflwyniad i'r cwnselydd newydd yn cael ei gynnwys yn y cylchlythyr nesaf.

Er ein bod yn recriwtio cwnselydd newydd ar hyn o bryd, rydym yn dal i dderbyn atgyfeiriadau newydd, a bydd apwyntiad yn cael ei drefnu gyda Caroline Coffey (Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol) os bydd angen.

Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes angen cymorth arnoch.

*Hoffem ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi, **Tîm**
WIBSS.*

